

Mawrth 2022

# **PR24 a thu hwnt: Dull cydweithredol yng Nghymru**

**ofwat**

## Ynglŷn â'r papur hwn

Yn PR24 rydym yn gofyn i'r cwmnïau dŵr nodi eu strategaethau cyflawni hirdymor ar gyfer y 25 mlynedd nesaf, a thrwy hyn, dangos sut y bydd eu cynllun busnes pum mlynedd yn sicrhau'r gwelliannau cywir ar yr adeg iawn, er mwyn bodloni eu hamcanion hirdymor.<sup>1</sup> Bydd yn rhaid iddynt fod yn ymwybodol o ansicrwydd yn y dyfodol a sefydlu eu cynlluniau hirdymor mewn modd a fydd yn gallu ymdopi â'r ansicrwydd hwn.

Mae rhanddeiliaid Cymru wedi'i gwneud yn glir bod dull cydweithredol yn ddymunol pan fydd strategaethau hirdymor ar gyfer Cymru yn cael eu datblygu. Mae hyn yn adlewyrchu'r fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru sy'n annog 'ffordd o weithio' gydweithredol. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod disgwyliadau clir ar sut y dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus Cymru gydweithredu i sicrhau canlyniadau sydd o fudd i bobl Cymru yn awr ac yn yr hirdymor. Adlewyrchir y disgwyliad ar gyfer y ffordd hon o weithio hefyd yn y Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Ofwat, sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. O'r herwydd, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid Cymru i sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith o helpu i lunio'r canlyniadau lefel uchel ar gyfer y cwmnïau dŵr yn yr hirdymor.

Rydym yn gweld hyn yn digwydd drwy 'dull cydweithredol', sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o Gymru (a nodir yn ddiweddarach yn y papur hwn), yn fforwm PR24 Cymru.<sup>2</sup> Bydd fforwm PR24 Cymru, a'r dull cydweithredol, yn newydd ar gyfer PR24 a bydd yn dod â rhanddeiliaid penodol a'r cwmnïau dŵr ynghyd i drafod y canlyniadau hirdymor ar gyfer y sector dŵr yn benodol. Dylai'r cyfle i'r cwmnïau dŵr gydweithio'n agos â rhanddeiliaid a rheoleiddwyr allweddol yn y sector dŵr, i fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n mynd i'w hwynebu, fod o fudd yn yr hirdymor. Mae'r papur hwn yn nodi:

- y cyd-destun ar gyfer cydweithredu yng Nghymru gan gynnwys sut mae'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol a pholisïau ehangach yn ysgogi cydweithredu;
- cyd-destun yr adolygiad prisiau nesaf, PR24;
- ein gobaith am sut y bydd y dull cydweithredol yn cyfrannu at nodi'r canlyniadau lefel uchel ar gyfer y cwmnïau dŵr;
- y rôl y bydd pob parti sy'n rhan o'r broses yn ei chwarae;
- y camau nesaf er mwyn i'r broses gydweithredol gychwyn.

Gobeithiwn y bydd y dull cydweithredol hwn yn gyrru ymgysylltiad â rhanddeiliaid Cymru ac yn galluogi cynlluniau busnes y cwmnïau i adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru. Credwn hefyd y bydd cysylltiad Ofwat â'r broses yn rhoi dealltwriaeth dda i ni o flaenoriaethau rhanddeiliaid Cymru a sut y maent wedi'u hystyried fel rhan o'r strategaethau cyflawni hirdymor. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus yn ystod y broses adolygu prisiau ac ar gyfer cyd-destun Cymru.

1. Mae 'gwelliannau' neu 'wariant gwella' yn cyfeirio at wariant at ddiben gwella gallu neu ansawdd gwasanaeth y tu hwnt i'r lefelau presennol.

2. Bydd fforwm PR24 Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a chwmnïau dŵr Cymru Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru.

## Cynnwys

1. Y cyd-destun ar gyfer cydweithredu yng Nghymru

4

2. Cyd-destun PR24 – cyflawni ar gyfer yr hirdymor

6

3. Beth fydd y dull cydweithredol yn ei gyflawni

7

4. Rolau a chyfrifoldebau yn ystod y broses gydweithredol

9

5. Y camau nesaf

12

# 1. Y cyd-destun ar gyfer cydweithredu yng Nghymru

Mae angen i Ofwat ddatblygu a gweithredu fframwaith rheoleiddio sy'n briodol i Gymru, sy'n berthnasol mewn cyd-destun Cymreig ac sy'n ystyried amgylchiadau penodol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am hyn gan Ofwat yn ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol. Er bod y fframwaith rheoleiddio a'r broses adolygu prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr fwy neu lai yr un fath, dylai'r manylion a'r ffyrdd o weithio adlewyrchu'r amgylchiadau ym mhob gwlad. Yng Nghymru, mae disgwyl i arweinwyr polisi a chyrrff cyhoeddus ymgysylltu â'i gilydd mewn modd cydweithredol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau mawr a fydd i'w gweld yn yr ychydig ddegawdau nesaf a thu hwnt. Mae'r disgwyliad hwn wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n rhoi ffocws penodol ar gynllunio ar gyfer yr hirdymor ac ar ganlyniadau sy'n cyflawni ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas, yn ogystal ag ymgysylltiad ystyrion â rhanddeiliaid.

Yn PR24, rydym yn gofyn i gwmnïau dŵr nodi strategaethau cyflawni hirdymor a dangos sut y bydd eu cynlluniau busnes pum mlynedd yn sicrhau'r buddsoddiadau gwella cywir, ar yr adeg iawn, i helpu i gyflawni amcanion hirdymor ar gyfer cwsmeriaid dŵr, cymdeithas a'r amgylchedd. Rydym am sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn cael eu cynnwys yn gynnar yn natblygiad y strategaethau hirdymor hyn a'u bod yn deall yr ansicrwydd yn y dyfodol y bydd yn rhaid ei gadw mewn cof. O'r herwydd, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn sector dŵr yng Nghymru, gan gynnwys y cwmnïau dŵr, Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) a chytunwyd y byddai'n fuddiol gweithredu 'dull cydweithredol' yng Nghymru ar gyfer PR24.<sup>3</sup> Byddai hyn yn galluogi'r rhanddeiliaid perthnasol i roi adborth cynnar ar y canlyniadau lefel uchel a hirdymor y mae'r cwmnïau dŵr yn eu cynnig yn PR24.

Drwy annog dull integredig ar gyfer datblygu strategaethau a chanlyniadau hirdymor, rydym yn gobeithio sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd, cymdeithas a chwsmeriaid yng Nghymru. Dylai allbynnau'r dull cydweithredol, yn ogystal â'r hyn a ddysgir o ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid a chwsmeriaid, gael eu defnyddio wedyn gan y cwmnïau dŵr i gynorthwyo i ddatblygu eu cynlluniau busnes a'u strategaethau cyflawni hirdymor.


Bydd y dull cydweithredol yn cael ei weithredu drwy fforwm PR24 Cymru gyda'r rhanddeiliaid a grybwyllwyd uchod yn cynnwys y cyfranogwyr 'craidd' yn y dull cydweithredol. Fel rhan o'r broses, byddem yn disgwyl i'r rhanddeiliaid allweddol hyn ddefnyddio ymchwil rhanddeiliaid i ddangos tystiolaeth o'u ffordd o feddwl ar gyfer blaenoriaethau i Gymru, ei chyflwyno i fforwm PR24 Cymru a hwyluso cyfranogiad ehangach os oes angen. Gobeithiwn y bydd hyn yn ysgogi aliniad ar y canlyniadau lefel uchel i gwsmeriaid, yn ogystal â thryloywder o ran sut y caiff cynlluniau busnes y cwmnïau, a strategaethau hirdymor, eu datblygu.

3. Drwy gydol y ddogfen, rydym yn cyfeirio at 'Rhanddeiliaid Cymru' fel rhan o'r broses gydweithredol. Yn y cyd-destun hwn, dylid cymryd bod y term yn cynnwys y pedwar rhanddeiliad a restrir, fel cyfranogwyr 'craidd' y dull cydweithredol.

Bydd Ofwat yn bresennol yn y trafodaethau hyn ac yn darparu cymorth ar:

- elfennau technegol y broses adolygu prisiau;
- y fframwaith rheoleiddio yn ei gyfanrwydd;
- tynnu sylw at newidiadau posibl yn PR24, o gymharu â PR19.

Bydd bod yn bresennol yn y trafodaethau yn sicrhau ein bod yn deall sut mae blaenoriaethau rhanddeiliaid Cymru wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau busnes y cwmnïau. Dylai hyn ganiatáu penderfyniadau mwy gwybodus ar gamau penderfyniad drafft a phenderfyniad terfynol yr adolygiad prisiau, ac ein bod yn ystyried blaenoriaethau rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Rydym hefyd yn gobeithio gallu rhoi adborth ar â sut y gallai cynigion ryngweithio â'r gyfundrefn reoleiddio a chael eu hadlewyrchu ynddi.



## 2. Cyd-destun PR24 – cyflawni ar gyfer yr hirdymor

Ym mis Mai 2021, fe wnaethom gyhoeddi '[PR24 a Thu Hwnt: Creu yfory, gyda'n gilydd](#)'. Roedd y cyhoeddiad hwn yn nodi ein barn gychwynnol ar sut y byddai PR24 yn gweithio ac yn mynegi'r angen i gynyddu ffocws y sector ar yr hirdymor. Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi '[PR24 a thu hwnt: Strategaethau cyflawni hirdymor a senarios cyfeirio cyffredin](#)'. Roedd hwn yn nodi ein disgwyliadau arfaethedig o ran yr hyn y dylai cwmnïau ei gynnwys yn eu strategaethau cyflawni hirdymor fel rhan o'r cynllun busnes a gyflwynir ar gyfer PR24 gan gynnwys y canlynol:<sup>4</sup>

- dylai cwmnïau nodi'r canlyniadau hirdymor y maent yn bwriadu eu cyflawni dros y 25 mlynedd nesaf;
- dylai eu strategaethau ddwyn ynghyd yr holl weithgareddau gwella ar draws meysydd dŵr a dŵr gwastraff, gan gynnwys y fframweithiau cynllunio strategol, i gyflawni'r canlyniadau hirdymor hyn;
- dylid cyflwyno gweithgareddau gwella allweddol gan ddefnyddio llwybrau addasol;
- dylai'r strategaeth, yn ei chyfanrwydd, gael ei phrofi yn erbyn ystod eang o senarios, gan gynnwys nifer fach o senarios cyfeirio cyffredin.

Yn PR24, rydym o'r farn y dylai rhanddeiliaid Cymru fod â lle i gynorthwyo i lunio strategaethau cyflawni hirdymor y cwmnïau ac – o ganlyniad – eu cynlluniau busnes pum mlynedd. Dyma pam y gwnaethom awgrymu, yn 'Creu yfory, gyda'n gilydd', y gallai fod lle i roi dull cydweithredol ar waith. Byddai hyn yn caniatáu ymgysylltu cynnar ar y canlyniadau lefel uchel, dynodi blaenoriaethau rhanddeiliaid a chwsmeriaid Cymru, ac yn bwydo'r rhain i mewn i broses datblygu cynllun busnes cwmnïau Cymru. Byddai hefyd yn darparu fforwm i drafod safbwyntiau a gasglwyd gan gwsmeriaid, drwy ymchwil ac ymgysylltu â chwsmeriaid ar lefel cwmni, a'u hymgorffori yn y canlyniadau lefel uchel hyn.

Elfen hanfodol o ddull y strategaeth gyflawni hirdymor yw cael y cwmnïau dŵr i fynegi'n glir pa ganlyniadau a fydd yn cael eu cyflawni, a phryd y cânt eu cyflawni dros y 25 mlynedd nesaf. Credwn y bydd y dull cydweithredol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol Cymru yn fforwm PR24 Cymru, yn rhoi llwyfan ar gyfer y drafodaeth hon ac yn crisialu pryd y dylid cyflawni'r canlyniadau lefel uchel, a pham. Bydd hefyd yn golygu bod gennym ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau rhanddeiliaid Cymru wrth gynnal ein proses adolygu prisiau.


4. Byddwn yn cyhoeddi papur ym mis Ebrill 2022 a fydd yn cadarnhau ein gofynion ar gyfer y strategaethau cyflawni hirdymor.

### 3. Beth fydd y dull cydweithredol yn ei gyflawni

Credwn y bydd defnyddio dull cydweithredol i gytuno ar y canlyniadau lefel uchel a hirdymor ar gyfer y cwmnïau dŵr o fudd i gwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r amgylchedd yng Nghymru.

Bydd y dull cydweithredol yn hwyluso mewnbwn rhanddeiliaid Cymru yn ystod camau cynnar datblygu cynllun busnes ac yn galluogi rhanddeiliaid i fynegi eu barn ar y canlyniadau lefel uchel y dylai'r sector dŵr fod yn ceisio eu cyflawni. Gwneir hyn o fewn fforwm penodol (fforwm PR24 Cymru) a bydd yn ysgogi'r dull cydweithredol rhwng cyrff cyhoeddus a'r cwmnïau dŵr a nodir yn Natganiad Blaenoriaethau Strategol Cymru. Dylai hyn ganiatáu aliniad ynglŷn â'r hyn y mae'r cwmnïau dŵr yn bwriadu ei gyflawni dros y 25 mlynedd nesaf ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru/rhanddeiliaid. Er enghraifft, bydd yn rhaid ystyried blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd, lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, fforddiadwyedd a sero net yn eu cyfanrwydd a thros yr hirdymor. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses gydweithredol hefyd yn rhoi golwg iddynt ar y cydbwysedd rhwng amseriad cyflawni canlyniadau a chyfyngiadau fforddiadwyedd posibl.

Rydym yn teimlo y bydd y dull cydweithredol yn broses ailadroddol, nid yn ddigwyddiad 'untro', lle gellir pennu'r cydbwysedd priodol rhwng canlyniadau ac ystyriaethau eraill (megis cost). Yna gall y cwmnïau dŵr gymryd allbwn y broses a'i fwydo i'w strategaethau cyflawni hirdymor a chynlluniau busnes pum mlynedd. Mae'r diagram isod yn nodi, ar lefel uchel, sut y bydd hyn yn digwydd a sut y bydd y dull cydweithredol yn bwydo i mewn i'r broses adolygu prisiau. Dylid nodi y bydd disgwyl i'r cwmnïau ystyried ymgysylltiad ehangach â chwsmeriaid a'u safbwyntiau fel rhan o'u strategaethau cyflawni a chynlluniau busnes hirdymor. Ni ddangosir hyn yn y diagram isod, gan ei fod yn canolbwyntio ar y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r broses gydweithredol yn unig.



Fel y nodir yn adran flaenorol y papur hwn, un o'r newidiadau allweddol yn PR24 yw cyflwyno'r strategaethau cyflawni hirdymor. Er y bu wastad ystyriaeth i'r cydbwysedd sydd i'w gael rhwng y canlyniadau a gyflawnir yn y cyfnod rheolaeth prisiau nesaf, a'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ddiweddarach, yn PR24 bydd hyn yn cael ei nodi'n benodol gyda chynlluniau hirdymor. Credwn y bydd gan y broses gydweithredol, a rhanddeiliaid Cymru, fewnbwn allweddol i'r drefn y bydd pa canlyniadau hirdymor yn cael eu cynnwys ar draws y Cyfnodau Rheoli Asedau (neu CRhA). Bydd hyn yn cynnwys llywio ar:

- blaenoriaethau cwsmeriaid ar draws canlyniadau cwsmeriaid, lefelau gwasanaeth a chanlyniadau amgylcheddol;
- sut y dylid cydbwysu'r blaenoriaethau hyn â chyfyngiadau fforddiadwyedd cwsmeriaid.

Disgwylwn i'r trafodaethau ddechrau drwy ganolbwyntio ar y canlyniadau lefel uchel y mae rhanddeiliaid yn meddwl y dylai'r sector geisio eu cyflawni yng Nghymru dros y 25 mlynedd nesaf. Er mwyn llywio'r drafodaeth hon, bydd y cwmnïau'n darparu amcangyfrifon cost bras ar gyfer y pecyn canlyniadau arfaethedig y maent yn gobeithio eu cyflawni yn y cyfnodau CRhA yn y dyfodol. Yna gall rhanddeiliaid ystyried y cydbwysedd rhwng canlyniadau, blaenoriaethau rhanddeiliaid a fforddiadwyedd, a gofyn i'r cwmnïau ddarparu rhagolygon cost newydd ar gyfer iteriadau olynol o ganlyniadau. Gallai hyn olygu bod rhai canlyniadau'n cael eu 'tynnu ymlaen' i gyfnod CRhA cynharach, neu'n cael eu 'gwithio'n ôl' i gyfnod CRhA diweddarach, yn seiliedig ar flaenoriaethu canlyniadau yn unol â blaenoriaethau rhanddeiliaid. Byddem yn annog cyfranogwyr yn y broses gydweithredol i ddarparu tystiolaeth o flaenoriaethau cwsmeriaid i lywio'r trafodaethau. Drwy'r broses ailadroddol hon bydd rhanddeiliaid Cymru yn dylanwadu ar strategaethau cyflawni hirdymor y cwmnïau, a fydd yn y pen draw yn bwydo i mewn i'w cynlluniau busnes pum mlynedd, a phenderfyniadau terfynol.

Bydd y broses yn ysgogi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac yn hwyluso ffordd o weithio sy'n briodol i'r cwmnïau dŵr, a chwsmeriaid, yng Nghymru. Bydd rhanddeiliaid yn gallu rhoi arweiniad clir ar y blaenoriaethau cymharol y maent yn eu cysylltu â gwahanol ganlyniadau yn y fforwm penodol ar gyfer rhanddeiliaid Cymru. Bydd ein dealltwriaeth glir o'r blaenoriaethau hyn wedyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus yn ystod y broses adolygu prisiau ac yng nghyd-destun Cymru.

Fodd bynnag, ni ddylai'r dull hwn dorri ar draws priodolau a chyfrifoldebau'r rhanddeiliaid dan sylw. Ar gyfer Ofwat, mae hyn yn golygu na fyddwn yn gallu mynegi barn ar, na chytuno i, gynlluniau neu brosiectau penodol cyn yr adolygiad prisiau. Dim ond pan fydd yr holl dystiolaeth berthnasol wedi'i chyflwyno i ni yng nghyflwyniadau rheoleiddio'r cwmnïau y byddwn yn gallu gwneud hyn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, byddwn yn ceisio dweud sut mae cynlluniau'n debygol o gael eu hasesu fel rhan o'r broses adolygu prisiau a sut y bydd y broses adolygu prisiau gyffredinol yn gweithredu.

Yn olaf, rydym yn annog deialog agored a thryloyw drwy gydol y broses adolygu prisiau. Wrth i fethodoleg PR24 gael ei datblygu a'i chyhoeddi, byddwn yn rhannu diweddiadau perthnasol gyda'r fforwm. Byddwn hefyd yn sicrhau tryloywder yn ein penderfyniadau, yn y ffordd arferol, drwy ymgynghori a'r ymatebion a gawn iddynt.



## 4. Rolau a chyfrifoldebau yn ystod y broses gydweithredol

Bydd mewnbwn sylweddol gan y rhanddeiliaid allweddol yn bwysig i sicrhau bod y broses gydweithredol yn rhedeg yn esmwyth ac, yn y pen draw, bod barn rhanddeiliaid Cymru yn cael ei hymgorffori yn strategaethau cyflawni hirdymor y cwmnïau. Gobeithiwn y bydd hyn yn sicrhau bod y cwmnïau'n rhoi'r canlyniadau/buddiannau sy'n bwysig i randdeiliaid a chwsmeriaid Cymru.

Rydym yn bwriadu codeiddio rolau penodol y gwahanol bartïon yng nghylch gwaith fforwm PR24 Cymru, a disgwyliwn i'r rhain gael eu cytuno yng nghyfarfod cyntaf y fforwm. Bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pawb yn gyfforddus i gael sgysiau gonest a didwyll yn ystod y broses, tra'n parhau i fod yn glir ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau pob parti. Rydym wedi crynhoi ein barn gychwynnol ar beth ddylai'r rolau priodol yn fforwm PR24 Cymru fod isod. Trafodir y rhain yn fanylach a'u cytuno ar gyfer y cylch gwaith.

### Rolau rhanddeiliaid

Drwy gydol y ddogfen hon rydym wedi defnyddio'r term 'rhanddeiliaid Cymru' yn llac i gynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, CCW a'r DWI. Drwy gydol y broses, disgwyliwn i'r partiïon hyn ystyried pa ganlyniadau hirdymor y dylai'r sector eu blaenoriaethu yn y blynyddoedd i ddod, gan gydbwyso hyn yn erbyn y pwysau fforddiadwyedd a wynebir gan gwsmeriaid yng Nghymru. Dylai'r cydbwysedd rhwng canlyniadau hirdymor a fforddiadwyedd gael ei lywio'n helaeth gan farn chwsmeriaid. Dylai'r cydbwysedd yma hefyd amlygu blaenoriaethau cwsmeriaid ar gyfer yr amgylchedd, cwsmeriaid yn gyffredinol a chymdeithas.

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn ystyried bod gan bob un o'r cyrff hyn rôl bwysig i'w chwarae yn y broses.

Crynodeb lefel uchel yn unig yw hwn o'r rôl y bydd pob parti yn ei chwarae yn y broses – disgwyliwn y bydd cylch gwaith fforwm PR24 Cymru yn rhoi mwy o fanylion. Er nad yw'r uchod yn rhestr gyflawn o randdeiliaid, rydym yn rhagweld y byddant yn ffurfio'r mynychwyr 'craidd' ar gyfer fforwm PR24 Cymru ac yn allweddol i sicrhau bod y dull cydweithredol yn llwyddiant.

## Llywodraeth Cymru

Mae blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat a'r diwydiant wedi'u nodi yn ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Ofwat a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru. Yn unol â hynny, byddem yn disgwyl iddi herio'r cwmnïau i ymestyn eu hunain yn y meysydd a adlewyrchir yn y dogfennau hyn a pholisiau cysylltiedig y llywodraeth, tra'n cydbwysu hyn â'r pwysau fforddiadwyedd mae cwsmeriaid yng Cymru yn wynebu.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Fel prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion amgylcheddol gyda chyfrifoldebau sy'n cynnwys adnoddau dŵr a gollyngiadau dŵr, rydym o'r farn y bydd CNC yn rhoi barn ar y canlyniadau amgylcheddol y dylai'r sector fod yn ceisio eu cyflawni yn yr hirdymor.



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales



The voice for water consumers  
Llais defnyddwyr dŵr

## Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Fel llais defnyddwyr dŵr, rydym yn disgwyl i CCW herio'r dystiolaeth ymchwil cwsmeriaid y mae cwmnïau'n ei defnyddio i gefnogi eu cynigion. Dylai hefyd dynnu sylw at y pwysau y dylai rhanddeiliaid fod yn ei roi ar wahanol ffynonellau tystiolaeth, yn seiliedig ar allu cwsmeriaid i wneud sylwadau ystyrlon ar wahanol agweddau ar berfformiad cwmnïau dŵr a'r gwasanaethau a ddarperir.



## Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Bydd gan y DWI rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfrannu at unrhyw drafodaethau ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed. Mae'r DWI hefyd mewn sefyllfa dda i roi barn ar faterion cwsmeriaid sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr yfed, o ystyried ei rôl mewn ymchwilio i gwynion defnyddwyr yn y maes hwn.

## Rôl y cwmnïau dŵr

Er mwyn i'r dull cydweithredol weithio, bydd rhaid i ymgysylltiad cwmnïau dŵr yng Nghymru â'u cwsmeriaid a rhanddeiliaid lleol fod o ansawdd uchel er mwyn deall pa ganlyniadau sydd bwysicaf iddynt hwy. Bydd hyn yn llywio trafodaethau cynnar o dan y dull cydweithredol ynglŷn â pha ganlyniadau hirdymor y dylid eu blaenoriaethu yn eu strategaethau cyflawni hirdymor. Dylid nodi y bydd yr ymgysylltiad hwn â chwsmeriaid yn rhan hanfodol o gyflwyniadau'r holl gwmnïau dŵr a bydd yn elfen ofynnol wrth benderfynu ar ganlyniadau rheolaeth prisiau. Bydd yn bwysig gweld hyn yn gynnar yn fforwm PR24 Cymru fel y gall fwydo i'r dull cydweithredol. Bydd y cwmnïau hefyd yn gyfrifol am ddarparu amcangyfrifon bras o gostau ar gyfer y gwahanol becynnau canlyniadau y mae rhanddeiliaid yn gofyn iddynt eu costio.

Yn olaf, bydd y cwmnïau'n gyfrifol am ddatblygu eu strategaethau cyflawni hirdymor a'u cynlluniau busnes pum mlynedd a rhoi sylw i'r cyfeiriadau a dderbynnir gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid Cymru ynddynt. Mae'r pwynt hwn yn arbennig o bwysig, gan nad ydym yn disgwyl i'r rhanddeiliaid 'gymeradwyo' pob un o gyflwyniadau rheoleiddiol y cwmnïau, felly byddem yn disgwyl i'r cwmnïau drosi'r blaenoriaethau lefel uchel yn effeithiol yn gynlluniau gweithredadwy a mesuradwy.

## Rôl Ofwat

Bydd prif rôl Ofwat yn ystod y broses adolygu prisiau lle byddwn yn gosod y pecyn rheolaeth prisiau terfynol ac yn gwirio bod cynlluniau busnes a strategaethau cyflawni hirdymor y cwmnïau wedi ystyried barn rhanddeiliaid. Yn ystod y broses gydweithredol, fodd bynnag, rydym yn gweld ein prif rolau fel:

- darparu cymorth technegol ar y fframwaith rheoleiddio PR24 pan gaiff ei gyhoeddi ac amlygu lle gallai newidiadau fod wedi digwydd o gymharu â PR19;
- annog trafodaethau yn fforwm PR24 Cymru sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau lefel uchel ac yn sicrhau eu bod yn dangos dealltwriaeth o flaenoriaethau cwsmeriaid;
- cefnogi Llywodraeth Cymru i hwyluso fforwm PR24 Cymru a chynorthwyo cyfranogwyr yn y dull cydweithredol i ddeall gofynion Datganiad Blaenoriaethau Strategol Cymru; a
- chofnodi a chyfathrebu gwersi a ddysgwyd o'r broses gydweithredol fel y gallwn ddeall a ellir eu cymhwyso i gyfnodau adolygu prisiau dilynol.

Mae'n bwysig nodi na fydd Ofwat yn gallu gwneud penderfyniadau ar ganlyniadau, cynigion gwella neu gategoriâu gwariant eraill yn ystod y broses gydweithredol. Dim ond yn ystod y broses adolygu prisiau y gwneir hyn. Fodd bynnag, byddwn yn ymrwmo i wneud ein gorau glas i ddarparu gwybodaeth a llywio trafodaeth mewn modd nad yw'n peryglu ein rôl statudol, ond byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau terfynol yn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymrwmo i gasglu'r hyn a ddysgwyd o'r broses hon ac, os bydd yn sicrhau'r buddion yr ydym yn gobeithio eu cael, ystyried sut y gallai'r dull hwn sicrhau manteision ehangach yn PR29 ac yn y modd yr ydym yn gweithio â rhanddeiliaid. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwmo i'r syniad o gydweithredu â phartion ar draws y sector i gyflawni nodau cyfunol ar gyfer y dyfodol, ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod PR24 yn llwyddiant.

## 5. Y camau nesaf

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid Cymru i roi fforwm PR24 Cymru ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda hwy i lunio cylch gwaith sy'n adlewyrchu'n gywir y canlyniadau dymunol, sy'n nodi'n briodol gyfrifoldebau'r partïon sy'n mynychu, ac sy'n sicrhau bod y dull cydweithredol yn llwyddiant.

# Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA  
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn [www.ofwat.gov.uk](https://www.ofwat.gov.uk).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [mailbox@ofwat.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gov.uk).